



Sut i ddweud eich dweud

Ceisiadau am drwydded Horizon Nuclear Power Wylfa Limited (Horizon) ar gyfer adeiladu gorsaf bŵer niwclear newydd ar arfordir gogleddol Ynys Môn.

Ar hyn o bryd rydym yn asesu tri chais am drwydded gan Horizon Nuclear Power Wylfa Limited ar gyfer trwyddedau amgylcheddol pwrpasol newydd, o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 (EPR); ac un cais am drwydded forol dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ar gyfer Gorsaf Bŵer Niwclear newydd Wylfa Newydd ar arfordir gogleddol Ynys Môn. Byddwn nawr yn ymgynghori ar y ceisiadau hyn.

Mae'r ceisiadau hyn ar gyfer gweithgareddau sy'n ymwneud â:

- gollyngiadau dŵr adeiladu
- gollwng dŵr gweithredol
- gweithgareddau hylosgi
- gweithgareddau adeiladu, carthu a gwaredu yn y môr

Rydym eisiau gwneud y penderfyniad gorau y gallwn. Mae gwrando ar farn pobl eraill yn ein helpu i ystyried pryderon na fyddem fel arall yn ymwybodol ohonynt. Rydym yn gwerthfawrogi'r ymatebion a gawn gan eu bod yn ein helpu i sicrhau bod unrhyw benderfyniad a wnawn yn briodol ac yn gadarn.

Mae cais i ddefnyddio, rheoli a gwaredu gwastraff ymbelydrol eisoes wedi'i gyflwyno i CNC ym mis Hydref 2017. Fe wnaethom ymgynghori ar y cais hwn ym mis Tachwedd 2017.

Mae'r ceisiadau ar gael i'w gweld trwy ein cofrestr gyhoeddus yn swyddfeydd CNC ym Mangor (Ffoniwch 03000 65 3000 ymlaen llaw i drefnu i gael ei gweld yn y swyddfa hon).

Fel arall, mae Horizon Nuclear Power Wylfa Limited wedi sicrhau bod y ceisiadau ar gael ar eu gwefan;

<https://www.horizonnuclearpower.com/ein-safleoedd/wylfa-newydd/dogfennau>

ac yn y lleoliadau canlynol:

- Canolfan Fusnes Ynys Môn, Bryn Cefni, Llangefni, LL77 7XA
- Swyddfa Safle Wylfa Newydd

Byddwn hefyd yn cynnal tri digwyddiad ymgynghori cyhoeddus lle gallwch wybod mwy am y cais:

Dydd Llun 16 Gorffennaf 2018 1pm-6:30pm Storiel, Bangor, LL57 1DT

Dydd Mawrth 17 Gorffennaf 2018 1pm-6:30pm Neuadd David Hughes, Cemaes, LL67 0LW

Dydd Mercher 18 Gorffennaf 12:30pm – 5pm Canolfan Ebeneser, Llangefni, LL77 7PN

Rôl Cyfoeth Naturiol Cymru

Ein rôl ni yw archwilio ceisiadau Horizon Nuclear Power Wylfa Limited ac i benderfynu a ddylid caniatáu neu wrthod eu trwyddedau.

Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i ni roi trwydded os gall yr ymgeisydd ddangos bod y safle yn bodloni'r holl ofynion cyfreithiol, amgylcheddol, technolegol ac iechyd o ran cyfraith y DU ac Ewrop.

Mae'r camau a ddilynwn wrth benderfynu a ddylid caniatáu neu wrthod trwydded yn cael eu diffinio gan ofynion cyfreithiol. Mae'n ofynnol i ni gyfiawnhau'r penderfyniad hwn o fewn ffiniau'r cyfyngiadau cyfreithiol hyn. Er enghraifft, byddwn yn ystyried yr holl wybodaeth berthnasol a godir trwy'r ymgynghoriad hwn, ond ni fyddai'n briodol i ni wrthod y drwydded dim ond oherwydd bod gwrthwynebiad lleol i'r gweithgaredd.

Byddwn ond yn rhoi trwydded os credwn y gall y gweithredwr fodloni amodau'r drwydded. Bydd unrhyw drwyddedau y byddwn yn eu cyhoeddi yn cynnwys amodau priodol i warchod yr amgylchedd.

I'ch helpu chi, rydym wedi nodi'r prif faterion y gallwn, ac na allwn eu hystyried isod.

Mae materion y gallwn ystyried sylwadau arnynt yn cynnwys:

- Cymhwysedd y gweithredwr i fodloni amodau'r drwydded
- Y ffordd y caiff elifiant ac allyriadau'r broses eu rheoli a'u gollwng
- Y terfynau arfaethedig sy'n gysylltiedig ag unrhyw ollyngiadau neu allyriadau
- Trefniadau samplu, a sut y caiff y gollyngiadau a'r allyriadau eu mesur
- Sut y gwaredir ar ddeunydd sy'n cael ei garthu o wely'r môr
- Cywiro gwybodaeth yn y cais

- Unrhyw ffactorau lleol perthnasol y credwch nad yw Horizon Nuclear Power Wylfa Limited wedi'u hystyried yn ei gais am drwydded

Cofiwch fod y gweithredwr posibl wedi nodi ei gynigion yn y ddogfen gais, efallai na fydd y rhain wedi'u datblygu'n llawn ar hyn o bryd. Os rhoddir trwydded yna bydd angen i'r gweithredwr ddangos sut mae datblygiadau pellach yn cydymffurfio â'r drwydded a byddwn yn archwilio eu cynnydd fel rhan o'n gweithgareddau gwirio cydymffurfiaeth arferol.

Mae materion na allwn ystyried sylwadau arnynt yn cynnwys:

- Diogelwch niwclear;
- Materion cynllunio, yn cynnwys lleoliad y safle
- Dyddiad y cais am drwydded

Mae'r materion hyn y tu hwnt i gwmpas ein rheoliadau trwydded morol ac amgylcheddol.

Camau nesaf

Rydym wedi penderfynu bod y ceisiadau "wedi'u gwneud yn briodol". Mae hyn yn golygu bod y cais yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnom i ddechrau'r broses benderfynu.

Rydym nawr yn ymgynghori ar y cais gyda'r bobl a'r rhanddeiliaid. Mae'r ymgynghoriad cychwynnol yn rhedeg o 28 Mehefin tan 6 Medi 2018.

Rydym yn gweithio gyda sawl sefydliad a chorff arbenigol i ofyn am eu barn ar warchod yr amgylchedd. Mae rhai o'r rhain yn cynnwys:

- Awdurdod Lleol
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Dŵr Cymru
- Asiantaeth Safonau Bwyd
- Natural England
- Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau
- Swyddogion Gorfodaeth Morol Llywodraeth Cymru

- Ystâd y Goron

Byddwn yn cydweithio'n agos â nhw i fynd i'r afael â phryderon cyhoeddus ac yn rhoi ystyriaeth i'w cyngor arbenigol wrth wneud ein penderfyniad.

Byddwn yn ystyried pob sylw yn ein hasesiad o'r ceisiadau lle maent yn berthnasol wrth benderfynu ar drwydded.

Lle mae sylwadau yn berthnasol i gais arall a wneir i CNC yna byddwn yn ymdrechu i'w hystyried fel rhan o'r cais hwnnw. Pan fyddwn yn glir y bydd y sylwadau'n berthnasol i gorff statudol arall, byddwn yn ymdrechu i sicrhau eu bod ar gael i'r corff hwnnw eu hystyried.

Ar gyfer y ceisiadau, byddwn yn cofnodi'r holl faterion perthnasol a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad ynghyd â'n hymateb, i ddechrau mewn Dogfen Penderfyniad Drafft ar gyfer y Trwyddedau Amgylcheddol yn unig.

Byddwn yn ymgynghori eto ar ein Penderfyniad Drafft, pe baem yn gwneud un, cyn cyhoeddi unrhyw ganlyniad terfynol yn ein Dogfen Penderfyniad.

Anfonwch eich sylwadau atom

Wrth wneud eich sylwadau, efallai yr hoffech ystyried y cwestiynau canlynol. Mae'r rhain wedi'u cynllunio i'n helpu i ddeall eich pryderon a nodi materion perthnasol y gallwn eu hystyried wrth wneud penderfyniad.

A oes gennych unrhyw sylwadau ar gynigion Horizon Nuclear Power Wylfa Limited? Er enghraifft:

1. Sut maent yn dangos na fydd eu cynigion yn peri niwed i iechyd dynol?
2. Sut maent yn dangos na fydd eu cynigion yn peri niwed i'r amgylchedd?
3. A oes unrhyw ffactorau lleol, e.e. nodweddion amgylcheddol sensitif lleol, nad yw Horizon Nuclear Power Wylfa Limited wedi'u hystyried yn y cais am drwydded, y credwch y dylem eu hystyried?

Dywedwch wrthym unrhyw wybodaeth arall y credwch y dylem ei hystyried wrth wneud ein penderfyniad.

Gellir anfon sylwadau at y cyfeiriad canlynol;

Tîm Trwyddedu, Cyfoeth Naturiol Cymru, Maes y Ffynnon, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2DW

neu e-bostiwch [yn cynnwys y cyfeirnod trwydded perthnasol \(isod\)](mailto:WylfaNewyddConsultations@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk) yn y llinell pwnc, i'r cyfeiriad e-bost canlynol;

WylfaNewyddConsultations@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Trwydded neu Ganiatâd	Cyfeirnod
Trwydded amgylcheddol gollwng dŵr wedi'i oeri	PAN-002427
Trwydded amgylcheddol gollwng dŵr adeiladu	PAN-002428
Trwydded amgylcheddol hylosgi	PAN-002429
Trwydded Forol	CML1832

Os gwnaethoch sylw ar ein cyfer ond, yng ngoleuni'r arweiniad hwn, nawr yn meddwl ei fod yn amhriodol, ysgrifennwch atom yn cadarnhau eich bod am ei dynnu'n ôl. Gellir tynnu sylwadau yn ôl ar unrhyw adeg cyn dyddiad penderfynu ar y cais.

Ysgrifennir y ddogfen hon mewn termau cyffredinol i'ch helpu i ddeall ein proses penderfynu rhoi trwydded. Nid ydyw i'w ystyried yn lle cyngor ar faterion penodol. Dylech geisio cyngor penodol cyn cymryd unrhyw gamau yn seiliedig ar y wybodaeth yn y ddogfen hon.